

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
Adran Gwasanaethau Gwastraff**

**CASGLIAD GWASTRAFF MASNACHOL
TELERAU AC AMODAU CAIS AM WASANAETHAU,
CYTUNDEB A CHONTRACT
2020/2021**



Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent

Gwastraff Masnachol ac Ailgylchu

Adran A, Telerau ac Amodau y Gwasanaeth

1. Cyfnod y Cytundeb

- 1.1. Mae'r Cyngor yn ymgymryd i gasglu'r gwastraff a reolir (a fanylir yn y nodyn trosglwyddo gwastraff) o safle'r Cwsmer ar sail wythnosol am isafswm cyfnod o Ddeuddeg (12) mis calendr ar ôl dyddiad llofnodi'r contract a chaiff ei adnewyddu'n awtomatig wedi hynny am gyfnodau dilynol o 12 mis calendr os na chaiff ei derfynu'n gynharach yn unol â darpariaethau'r cytundeb hwn.
- 1.2. Ar gyfer Ysgolion neu Ffreuturau Ysgolion, mae'r contract 12 mis yn seiliedig ar 42 casgliad wythnosol.
- 1.3. Ar gyfer pob Cwsmer arall, mae'r contract 12 mis yn seiliedig ar 52 casgliad wythnosol.

2. Darpariaeth Gwasanaeth

- 2.1. Mae'r Cyngor yn ymgymryd i ddarparu'r gwasanaethau yn unol â darpariaethau'r cytundeb hwn gan wneud casgliadau wythnosol o wastraff a reolir fel y nodir yng nghymalau 1.2 a 1.3, yr adran gwneud cais a'r Dyletswydd Gofal (nodyn trosglwyddo gwastraff).
- 2.2. Caiff y Gwasanaethau eu cyfyngu i nifer a chyfaint y Cynhwysydd(ion) y gwneir cais amdano/amdanynt ac y cytunwyd taliad ar eu cyfer. Ni wneir unrhyw ad-daliad lle mae cyfaint y gwastraff a gesglir yn llai nag a nodir yn y cytundeb hwn. Ni chaiff unrhyw wastraff dros ben ei gasglu os na wnaed trefniant ymlaen llaw gyda'r cyngor ac y codwyd tâl am hynny.
- 2.3. Gall y Cyngor newid amllder y Gwasanaethau yn ystod Gwyliau Banc, gwyliau eraill, yn ystod argyfwng dinesig, i gyflawni gofynion gweithredol eraill yn cynnwys tywydd gwael neu amgylchiadau eraill sy'n effeithio ar allu'r Cyngor i ddarparu'r Gwasanaethau ac sydd tu allan i reolaeth y Cyngor. Lle'n bosibl, caiff newidiadau o'r fath eu hysbysu i'r Cwsmer ymlaen llaw. Os na all y Cyngor ddarparu'r Gwasanaethau ar y dyddiau casglu, mae'r Cyngor yn cytuno i ail-drefnu'r Gwasanaethau ar y cyfle cyntaf posibl heb gost i'r Cwsmer. Mae'r Cwsmer yn cytuno i gynorthwyo'r Cyngor lle mae angen ail-drefnu'r casgliad.
- 2.4. Fel cynhyrhydd gwastraff a reolir, mae'r Cwsmer yn cydnabod fod ganddo ddyletswydd gofal dan Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 (Adran 34) i gymryd pob cam rhesymol i sicrhau y caiff gwastraff ei reoli mewn modd a awdurdodwyd. Fel rhan o'r ddyletswydd yma, mae'n rhaid i'r Cwsmer sicrhau y rhoddir disgrifiad ysgrifenedig o'r Gwastraff i'r Cyngor drwy Nodyn Trosglwyddo Gwastraff cyn y caiff unrhyw Wastraff ei gasglu. Mae'n rhaid i'r Nodyn Trosglwyddo Gwastraff roi gwybodaeth am natur a chyfansoddiad y Gwastraff, sut y caiff ei stori a chynnwys gwybodaeth ddigonol i alluogi trin y Gwastraff yn ddiogel a chyfreithiol, ei adfer neu ei waredu. Lle mae casgliadau rheolaidd o'r Gwastraff ac nad oes newid yn y disgrifiad gall y Nodyn Trosglwyddo Gwastraff fod yn ddilys am hyd at un flwyddyn. Mae'n ofyniad cyfreithiol i'r Cwsmer gadw pob Nodyn Trosglwyddo Gwastraff am isafswm cyfnod o ddwy (2) flynedd. Anfonir nodyn dyletswydd gofal trosglwyddo gwastraff atoch yn flynyddol a chyfrifoldeb y Cwsmer yw llenwi pob adran berthnasol a'i ddychwelyd i'r cyngor erbyn y dyddiad gofynnol. Bydd methiant i wneud hynny yn arwain at derfynu'r cytundeb ar unwaith. Mae **ffi weinyddol o £25.00** ar gyfer pob nodyn Dyletswydd Gofal (Trosglwyddo Gwastraff) a gyhoeddir.

- 2.5. Mae'r Cwsmer yn cadarnhau y bydd yn cydymffurfio gydag unrhyw ofynion sy'n deilio o ddiwygiadau 'r Rheoliadau Gwastraff a deddfwriaeth megis dyletswydd gyfreithiol Awdurdodau Lleol a sefydliadau sy'n casglu gwastraff gan gartrefi a busnesau i gasglu ar wahân ddeunyddiau y gellir eu hailgylchu.

3. Casglu, Defnyddio a Chynnal a Chadw Cynhwysydd(ion) Gwastraff

- 3.1. Bydd y Cyngor yn darparu'r cynhwysydd(ion) gwastraff y gwneir cais amdanynt o'r rhestr sydd ar gael, fydd yn parhau i fod yn eiddo'r Cyngor. Mae'r Cwsmer yn gyfrifol am yswirio rhag unrhyw anharddiad neu ddifrod ddamweiniol neu golled i'r cynhwysydd(ion) sut bynnag y caiff ei achosi tra'i fod ar fenthgy i'r Cwsmer. Gellir codi tâl am unrhyw gynhwysyddion a gaiff eu colli neu eu dwyn o safle'r Cwsmer.
- 3.2. Mae'r Cwsmer yn gyfrifol am ddewis y detholiad priodol o gynwysyddion a gynigir yn unol â'u proffil gwastraff busnes unigryw eu hunain a'r gofyniad i gyflwyno deunyddiau ailgylchu ar wahân. Bydd y Cwsmer yn sicrhau mai dim ond y gwastraff cywir a gaiff ei roi ym mhob cynhwysydd ac nad oes unrhyw halogiad rhwng y ffrydiau gwastraff (sbwriel i mewn gydag ailgylchu neu'r ffordd arall o amgylch a/neu gymysgu deunyddiau y gellir eu hailgylchu o fewn yr ystod o gynwysyddion ailgylchu ar gyfer ffrydiau gwastraff penodol. Ni chaiff unrhyw wastraff halogedig a ddynodir gan y criw adeg casglu ei dderbyn a chaiff y Cwsmer ei hysbysu. Cyfrifoldeb y Cwsmer yw symud yr halogiad i'r cynhwysydd cywir cyn y casgliad nesaf i osgoi peidio casglu eto oherwydd halogiad.
- 3.3. Bydd y Cwsmer ar ei draul ei hun yn gadw cynhwysyddion yn lân a/neu wedi eu diheintio (er mwyn osgoi arogleuon niwsans neu heigiad pryfed), mewn cyflwr da (disgwylir traul teg) a sicrhau na chaiff y cynnwys ei roi ar dân. Bydd y Cwsmer yn caniatáu i gynrychiolwyr y Cyngor, ar bob amser rhesymol, i gael mynediad i'r cynhwysydd(ion) dan sylw ac archwilio'r safle ac amodau hynny.
- 3.4. Bydd y Cwsmer yn rhoi'r cynhwysydd(ion) i gael ei wagu mewn lleoliad rhwydd i'r Cyngor ei gasglu. Os yw'r Cwsmer angen gwasanaeth, heblaw ar y briffordd gyhoeddus, bydd y Cyngor yn rhoi mynediad a gofod rhesymol, diogel a digonol ar gyfer gwaith llwytho a dadlwytho, gellir dosbarthu a chasglu heb risg i, neu ddifrod i'r llwythwr/llwythwyr, heb rwystr i'r briffordd gyhoeddus a rhaid iddo beidio achosi rhwystr, gostwng lefelau diogelwch neu achosi niwsans neu annifyrrwch cyffredinol.
- 3.5. Mae'n rhaid i'r holl wastraff a gaiff ei gynhyrchu yn safle'r Cwsmer gael ei roi yn y cynhwysydd(ion) priodol ar gyfer ei gasglu gyda'r caeadau ar gau. Pe byddai difrod i'r cynhwysydd(ion) gwastraff fel canlyniad i draul cyffredin, bydd y Cyngor ar ei ddisgresiwn naill ai'n unioni'r difrod neu'n amnewid y cynhwysydd(ion).
- 3.6. Mae'n rhaid i bob cynhwysydd gwastraff fod yn barod ar gyfer eu casglu ar y palmant o flaen safle'r Cwsmer neu mewn lleoliad arall a ddifinnir yng nghymal 3.4 ac a gytunwyd gan y cyngor erbyn 7 am ac ar y diwrnod a nodwyd ar gyfer casglu ond heb fod yn gynharach na'r noswaith flaenorol. Ni fydd y cyngor yn gyfrifol am unrhyw wastraff a gyflwynir ar ôl yr amser hwn.
- 3.7. Bydd y Cwsmer yn sicrhau y caiff yr holl wastraff ei gadw yn y cynhwysydd(ion) gwastraff a ddarperir gan y Cyngor ac y caiff caeadau'r cynhwysydd eu cadw ar gau ar ôl eu defnyddio. Ni chaiff unrhyw wastraff dros ben ei symud o'r safle ac ni fydd y Cyngor dan unrhyw reidrwydd i'w symud.
- 3.8. Os yw profiad yn dangos i'r Cwsmer nad yw'r cynhwysydd a gyflenwyd yn ddigon mawr, cyfrifoldeb y Cwsmer yw cael a thalu'r gost berthnasol ar gyfer cynhwysydd mwy i ddarparu ar gyfer y cyfaint rheolaidd a ddisgwylir o'r ffrwd gwastraff neilltuol hwnnw.
- 3.9. Caiff atebolrwydd cronus y Cyngor i'r Cwsmer am dorri goblygiadau'r Cyngor (yn cynnwys toriad esgeulus) neu unrhyw a phob gweithred neu ddiffyg gweithredu o esgeulustod gan y Cyngor dan y Cytundeb ei gyfyngu i'r swm a dalwyd gan y cwsmer i'r Cyngor am y gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor dan y Cytundeb hwn, heblaw na fydd dim yn y Cytundeb hwn yn eithrio neu gyfyngu atebolrwydd y Cyngor am farwolaeth neu anaf personol a achosir gan ei weithred, diffyg gweithredu

neu esgeulustod neu atebolrwydd y Cyngor yng nghyswllt unrhyw fater y mae'n anghyfreithlon i eithrio atebolrwydd.

- 3.10. Ni fydd deunydd gwastraff i'w gasglu drwy'r Cytundeb hwn yn cynnwys unrhyw hylifau, neu unrhyw ddeunydd sy'n wenwynig, cyrydol, fflamadwy, ffrwydrol neu beryglus, gwastraff meddygol neu filfeddygol heintus, hen deiars cyfan neu wedi'u rhwygo, gwastraff a allai achosi problem mewn tomen lanw (gwastraff poeth neu gemegol weithredol), unrhyw wastraff nad yw'n cyflawni'r meini prawf ar gyfer derbyn gwastraff ar gyfer y dosbarth hwnnw o domen lanw.
- 3.11. Ni fydd y Cyngor dan unrhyw atebolrwydd i'r Cwsmer yng nghyswllt unrhyw fethiant i gyflawni neu oedi cyflawni unrhyw un o'i oblygiadau a gaiff ei briodoli dan hyn i unrhyw achos o ba bynnag fath tu allan i'w reolaeth resymol.

4. FFFIOEDD SY'N DALADWY GAN Y CWSMER, AMRYWIADAU A THERFYNIADAU

- 4.1. Ni chaiff ffioedd Gwastraff Masnachol eu cynnwys yn nhaliadau ardrethi annomestig y Cyngor.
- 4.2. Bydd y Cwsmer yn talu'r ffi casglu wythnosol i'r Cyngor dri (3) mis ymlaen llaw, a gaiff ei gyfrif yn unol â'r rhestr ffioedd a benderfynir o bryd i'w gilydd gan y Cyngor ac a hysbysir yn yr adran Cais neu mewn ysgrifen i'r Cwsmer.
- 4.3. Rhaid derbyn taliad o fewn deg diwrnod ar hugain (30) o'r anfoneb. Gall oedi cyn talu arwain at i'r gwasanaeth gael ei derfynu heb rybudd.
- 4.4. Mae'r Cwsmer yn cytuno i dderbyn E-bost fel y prif ddull o anfonebu ac ymholiadau am filio (os nad yw hynny'n bosibl am resymau technegol dilys)
- 4.5. Mae'r cytundeb yn seiliedig ar gontract treigl 12 mis yn dechrau ac yn gorffen ar unrhyw fis penodol yn y flwyddyn galendr. Caiff unrhyw gynnydd neu addasiadau yn y prisiau blynyddol eu gwneud ar ddechrau'r flwyddyn ariannol newydd (Ebrill) pa bynnag fis y mae contract y Cwsmer yn dechrau. Caiff anfonebau unigol eu cyhoeddi ar sail pro-rata pan nad yw'r trosiant yn llyfn.
- 4.6. Mae'r Cyngor yn ymgymryd i gasglu'r gwastraff a reolir (a fanylir yn y Nodyn Trosglwyddo Gwastraff a Reoli) gan y Cwsmer, am isafswm cyfnod o ddeuddeg (12) mis ar ôl dyddiad llofnodi'r Cytundeb. Os yw'r Cwsmer yn methu gwneud unrhyw daliad o'r fath ymlaen llaw neu ar y dyddiad dyledus, bydd gan y Cyngor hawl i dybio fod y Cytundeb wedi'i derfynu ac mae'n cadw'r hawl i gwrso'r swm sydd ar ôl am y cyfnod contract 12 mis.
- 4.7. Bydd gan y Cyngor yr hawl i gynyddu'r ffi casglu ar unrhyw adeg i roi ystyriaeth i unrhyw gynnydd mewn cost heb ragfarnu cyffredinedd yr uchod. Gall costau o'r fath gynnwys cynnydd mewn costau gwaredu, trethiant llywodraeth ganolog, costau casglu a thanwydd. Ni roddir llai na un mis o hysbysiad ysgrifenedig i'r Cwsmer o amrywiad yn y ffi casglu.
- 4.8. Y Cwsmer sy'n gyfrifol am drafodion o'u cyfrif(on) banc.
- 4.9. Mae ffi gweinyddol blynyddol o £25.00 yn daladwy gan bob Cwsmer am gyhoeddi'r Ddyletswydd Gofal (Nodyn Trosglwyddo Gwastraff), gweler adran 2, cymal **2.4**.
- 4.10. Mae terfynu'r contract hwn gan y Cwsmer angen cwblhau'r cyfnod contract treigl 12 mis ac mae'n rhaid i'r cyngor dderbyn o leiaf un (1) mis o hysbysiad mewn ysgrifen (E-bost yn dderbyniol).
- 4.11. Gall y Cyngor derfynu'r Cytundeb ar unrhyw amser os oes toriad gan y Cwsmer neu os yw'r Cwsmer yn gwneud unrhyw drefniant gwirfoddol gyda'i gredydwy, neu'n destun gorchymyn gweinyddu, neu'n dod yn fethdalwr, neu os penodir derbynnydd neu os caiff ei ddiddymu.
- 4.12. Gall y Cyngor derfynu'r cytundeb hwn ar unrhyw amser ar ôl cwblhau'r cyfnod contract treigol deuddeg (12) mis a bydd yn rhoi o leiaf un (1) mis o hysbysiad i'r Cwsmer o hynny.

5. AMODAU

- 5.1. Mae'n ddyletswydd ar y Cyngor i gydymffurfio gyda Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Ar ei ddisgresiwn llwyr a serch unrhyw amodau eraill yn y Cytundeb, bydd gan y Cyngor hawl i ddatgelu i drydydd parti unrhyw a holl delerau ac amodau'r Cytundeb a chynnwys unrhyw ddogfennau a gwybodaeth yn ymwneud â'r Cytundeb yn unol â Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.
- 5.2. Bydd y Cwsmer yn cydweithredu gyda'r Cyngor ac yn cyflenwi iddo, heb ddim cost i'r Cyngor ac o fewn saith diwrnod o dderbyn unrhyw gais a dderbynnir gan y Cyngor yn unol â'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, yr holl wybodaeth a dogfennau angenrheidiol yn gysylltiedig gydag unrhyw gais o'r fath.
- 5.3. Os caiff unrhyw amod neu ddarpariaeth yn y Cytundeb hwn ei ddal yn gyfan neu'n rhannol i unrhyw raddau i fod yn anghyfreithlon neu'n anorfodadwy dan unrhyw weithrediad neu reol y gyfraith bernir nad yw'r amod neu ddarpariaeth hynny neu ran o hynny i'r graddau hwnnw yn ffurfio rhan o'r Cytundeb.
- 5.4. Caiff y Cytundeb ei lywodraethu gan a'i ddehongli yn unol â chyfraith Lloegr a Chymru ac mae'r partïon i'r Cytundeb yn cytuno bod yn ddarostyngedig i awdurdodaeth Iwyr llysoedd Lloegr a Chymru.
- 5.5. Mae'n rhaid i'r Cwsmer o fewn un wythnos o unrhyw newid hysbysu'r Cyngor am y newidiadau dilynol:
 - i. Enw a chyfeiriad unrhyw berchennog/meddiannwr newydd
 - ii. Yn achos cwmni, unrhyw newid cyfeiriad neu swyddfa gofrestredig y cwmni
 - iii. Yn achos cwmni, unrhyw uno, cymryd drosodd neu gyfuno Cwmni
 - iv. Unrhyw amgylchiadau sylweddol eraill a all effeithio ar atebolrwydd y Cwsmer dan y Cytundeb Gwasanaeth yma.
- 5.6. Mae'n rhaid i unrhyw ddiwygiad i'r contract hwn gael ei wneud drwy ysgrifennu neu drwy E-bost at y Cyngor. Ni ddylid gwneud y cais hyn drwy'r criw casglu mewn unrhyw amgylchiadau.

6. Hierarchaeth Gwastraff – Rheoliad 12 (Rheoliadau Gwastraff 2011)

- 6.1. Mae'n rhaid i'r Cwsmer sy'n mewnfario, **cynhyrchu**, casglu, adfer neu waredu â gwastraff, neu sydd fel deliwr neu frocer â rheolaeth o wastraff, gymryd pob mesur sydd ar gael iddo fel sy'n rhesymol yn yr amgylchiadau i weithredu'r hierarchaeth gwastraff dilynol fel trefn blaenoriaeth:
 - i. Atal;
 - ii. Paratoi i ail-ddefnyddio;
 - iii. Ailgylchu;
 - iv. Adferiad arall (er enghraifft adfer ynni);
 - v. Gwaredu.
- 6.2. Gall y Cwsmer adael y drefn blaenoriaeth yng nghymal **6.1**) er mwyn sicrhau'r canlyniad amgylcheddol cyffredinol gorau i'r amgylchedd lle caiff hyn ei gyfiawnhau gan feddwl cylch oes ar effeithiau cyffredinol cynhyrchu a rheoli'r gwastraff.
- 6.3. Wrth ystyried yr effeithiau cyffredinol a nodwyd yng nghymal **6.2**), mae'n rhaid rhoi ystyriaeth i'r dilynol:
 - i. Egwyddorion cyffredinol diogelu'r amgylchedd o rhagofalu a chynaliadwyedd;
 - ii. Dichonolrwydd technegol a hyfywedd economaidd;
 - iii. Diogelu adnoddau;
 - iv. Yr effeithiau cyffredinol ar yr amgylchedd, iechyd dynol, economaidd a chymdeithasol.
- 6.4. Ni fydd y Cyngor yn casglu unrhyw wastraff lle na chafodd trefn blaenoriaeth yr hierarchaeth gwastraff ei weithredu.

7. Gwastraff a Reolir

7.1. Mae'r Cwsmer yn deall na fydd y gwastraff a ddarperir i'r Cyngor yn ddarostyngedig i'r Rheoliadau Rheoli Llygredd, Rheoliadau Gwastraff Arbennig, Rheoliadau Rheoli Gwastraff (Gwastraff Peryglus) neu reoliadau rheoli arbennig eraill ac na fydd yn cynnwys ffrwydron na deunydd fflamadwy iawn neu wenwynig, deunydd a all halogi neu ddeunyddiau a gafodd eu gwahardd.

7.2. Mae deunyddiau a gafodd eu gwahardd yn cynnwys:

- a) Carthffosiaeth amrwd neu laid tanc septig
- b) Gwastraff dymchwel neu adeiladu
- c) Unrhyw ddeunydd concrit, metel, pren neu ddeunydd arall o faint, siâp neu nad yw'n plygu fyddai'n cael effaith niweidiol ar beiriannau cywasgu'r cerbyd casglu neu'n achosi difrod i'r cynhwysydd
- d) Olew gwastraff/toddyddion/paent/cemegau.
- e) Asbestos
- f) Gwastraff clinigol
- g) Gwastraff arbennig
- h) Gwastraff hylifol
- i) Batris
- j) Anifeiliaid marw
- k) Gwastraff swmpus
- l) Plastrfwrdd
- m) Teiars
- n) Tiwbiau fflwrolau

NODYN: Nid yw'r rhestr uchod yn cynnwys popeth a'r unig wastraff a gaiff ei dderbyn ar gyfer ei gasglu yw'r hyn a fanylir yn eich Nodyn Dyletswydd Gofal Trosglwyddo Gwastraff.

Adran B, Cais am Wasanaethau Casglu Gwastraff Masnachol

Math o Fusnes:		Rhif Cwsmer (Defnydd Swyddfa)	
Cod SIC:		Rhif Cofrestru Elusen (Os yn berthnasol)	

Enw a Chyfeiriad Masnachu y Busnes	Manylion Anfoneb/Banc	Cyfeiriad Cartref/Arall (os yn wahanol i'r cyfeiriad masnachu)
Cwmni Cyfyngedig? I/N		

Rwyf drwy hyn yn gwneud cais i Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent i gael symud deunyddiau gwastraff yn wythnosol o'r cyfeiriad uchod ac yn cytuno i dalu'r ffioedd priodol. Rwy'n cydnabod y gall y ffioedd hyn newid yn flynyddol. Y gwasanaeth wythnosol sydd ei angen yw:

Ffrwd Gwastraff	Math Cynhwysydd	Nifer sydd eu hangen	Cost Wythnosol (i'w ddefnyddio mewn cysylltiad â'r rhestr prisiau ddiweddaraf)
Gwydr Cymysg	Bin Olwyn 120 Litr		
	Bin Olwyn 240 Litr		
Plastig a Chaniau Metel Cymysg	Cawell Plastig 55 Litr Sach Ddefnydd 90 Litr y gellir ei hailddefnyddio		
	Bin Olwyn 120 Litr		
	Bin Olwyn 240 Litr		
	Bin Olwyn 360 Litr		
	Bin Olwyn 660 Litr		
Papur a Chardfwrdd Cymysg	Cawell Plastig 55 Litr Sach Ddefnydd 90 Litr y gellir ei hailddefnyddio		
	Bin Olwyn 120 Litr		
	Bin Olwyn 240 Litr		
	Bin Olwyn 360 Litr		
	Bin Olwyn 660 Litr		
	Bin Olwyn 1100 Litr		
	Bin Olwyn 1100 Litr		
Gwastraff Bwyd	Cadi 23 Litr		
	Bin Olwyn 140 Litr Bin Olwyn 120 Litr		
Gweddilliol (Cyfradd Safonol)	Bin Olwyn 240 Litr		
	Bin Olwyn 360 Litr		
	Bin Olwyn 660 Litr Bin Olwyn 1100 Litr		
	Bin Olwyn 660 Litr		
	Bin Olwyn 1100 Litr		

Mae'r gyfradd ratach ar gyfer elusennau cofrestredig yn berthnasol i sbwriel gweddilliol yn unig. Gweler y manylion ar y rhestr prisiau gyfredol.

Datganiad/Cydnabyddiaeth

Gofynnir i chi lofnodi'r ddau gopi o'r cytundeb hwn yn cynnwys y ffurflen gais wedi'i llenwi, cadw un ar gyfer eich cofnodion eich hun a dychwelyd y llall gyda'r dilynol:

- Copi blaen wedi'i llenwi a'i lofnodi o'r ddogfen Dyletswydd Gofal (gan gadw'r copi carbon gan fod hon yn ddogfen cyfreithiol yn cadarnhau eich caniatad i ddal a trosglwyddo'r gwastraff)
- Copi o bapur pennawd eich cwmni neu gopi o'r ardrethi busnes ar gyfer y safle
- Ffurflen Debyd Uniongyrchol wedi'i llenwi (os ydych yn dewis ddefnyddio'r dull hwn ar gyfer talu)

Bydd y Cyngor yn dosbarthu'r cynwysyddion sydd eu hangen a bydd y gwasanaeth yn dechrau unwaith y cafodd y dogfennau hyn eu llofnodi a'u dychwelyd.

Rwyf wedi darllen a deall y telerau a'r amodau a nodir yn y ddogfen hon a chytunaf eu bod yn rhesymol. Cytunaf hefyd y bydd y ffurflen gais ynghyd â'r telerau ac amodau a'r Dyletswydd Gofal (Nodyn Trosglwyddo Gwastraff) gyda'i gilydd yn ffurfio fy nghontract gyda'r Cyngor ar gyfer casglu gwastraff masnachol.

Rwy'n cadarnhau fod gennyf awdurdod i lofnodi'r cytundeb hwn ac y bydd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent hawl i dybio i mi fod ag awdurdod o'r fath. Mae'n rhaid i berchennog y cwmni lofnodi a nodi'r enw masnachu os nad yw'r busnes yn gwmni cyfyngedig.

Llofnod: Dyddiad:.....

Teitl: Enw: (llythrennau bras)

Swydd yn y Cwmni/Sefydliad:

Rhif Ffôn Daear:..... Rhif Symudol:.....

Cyfeiriad E-bost.....

Llofnodwyd ar ran Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent:



Mr. Matthew Stent, Rheolwr Tîm, Rheoli Gwastraff a Fflyd – Gwasanaethau Cymdogaeth.

Ar gyfer Defnydd Swyddfa yn unig		
Dyddiad derbyn dogfennau yn ôl gan y Cwsmer	Dyddiad rhoi manylion ar gronfa ddata Gwastraff Masnach	Dyddiad dosbarthu bin
Dyddiad y casgliad cyntaf:	Arall:	Arall:

Cyhoeddwyd gan Adran Gwasanaethau Gwastraff Masnachol ac Ailgylchu CBSBG
Depot Canolog, Stad Ddiwydiannol Barleyfields, Brynmawr, Blaenau Gwent, NP23 4YF

Rhif Ffôn: (C2BG) 01495 311556
Cyfeiriad E-bost: info@blaenau-gwent.gov.uk